



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Uwchgynhadledd Iechyd Meddwl – Gofal Cleifion
Mewnol**

30 Tachwedd 2023

**Crynodeb o Faterion Allweddol, Camau Gweithredu
a Chantau Nesaf**

Cynhyrchwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2024

Cefndir

Mae materion ansawdd a diogelwch ym maes gofal cleifion mewnol iechyd meddwl ar draws GIG Cymru, a ffocws yr uwchgynhadledd hon oedd ystyried y risgiau a'r atebion sy'n gysylltiedig â gofal cleifion mewnol o fewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Amlygodd yr uwchgynhadledd bryderon a gwnaeth ganiatáu i arweinwyr cyrff cyhoeddus rannu gwybodaeth am ofal cleifion mewnol a lleoliadau cleifion mewnol. Anogwyd byrddau iechyd i rannu arferion gorau ac i gytuno ar ganlyniadau ar gyfer gwelliannau diogelwch i drawsnewid gwasanaethau gofal iechyd meddwl aciwt yn yr hirdymor.

Cyd-destun strategol a chroeso, nodau ac amcanion

Agorodd Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gweithredol Iechyd Meddwl y GIG yr uwchgynhadledd, gan nodi'r rhesymeg dros gynnal yr uwchgynhadledd.

Cydnabu fod timau cleifion mewnol ledled Cymru yn gweithio'n galed iawn a bod arferion da i'w gweld.

Fodd bynnag, mae adborth gan y staff, defnyddwyr gwasanaethau, adroddiadau arolygu a ffurflenni Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol (NRI) yn dweud wrthym, er bod rhai pobl yn cael profiadau cadarnhaol, mae eraill yn profi niwed y gellir ei osgoi. Mae'r niwed hwn yn ganlyniad i faterion gweithdrefnol megis dulliau ar gyfer cynnal asesiadau risg a diffyg dilyniant wrth ryddhau, amgylcheddau anniogel, gan gynnwys risgiau clymu, a materion perthynol megis diffyg cymorth therapiwtig a ffocws sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dros y degawd 2010-2020, gwnaeth dros chwarter (28%) y bobl a fu farw trwy hunanladdiad wneud hynny mewn lleoliadau cleifion mewnol, yn y cyfnod yn syth ar ôl rhyddhau, neu wrth fod dan ofal y timau datrys argyfwng / triniaeth gartref. Ailadroddodd y Cyfarwyddwr bwysigrwydd darparu gofal diogel a gofynnodd i'r grŵp ystyried sut y gallai rhaglen diogelwch cleifion GIG Cymru gefnogi'r gwaith hwn ymhellach.

Gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithredol Iechyd Meddwl y GIG sleidiau yn crynhoi data perthnasol ar wasanaethau cleifion mewnol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd cyfraddau derbyn oedolion wedi amrywio o rhwng tua 550 a 700 y mis, ac roedd y defnydd gwelyau yn 89.6%; roedd canolrif yr hyd arhosiad wedi amrywio o rhwng 11 ac 14 diwrnod. Ar gyfer oedolion hŷn, roedd y cyfraddau derbyn wedi amrywio o rhwng 100 a 150 y mis, ac roedd y defnydd gwelyau yn 89.9% a chanolrif yr hyd arhosiad rhwng 36 a 67 diwrnod.

Roedd Gweithrediaeth y GIG wedi cynnal adolygiad cyflym yn ddiweddar o nifer yn achosion o ddigwyddiadau rhwng 2017 a 2022. Astudiaeth hydredol oedd hon, yn

defnyddio gwybodaeth o adroddiadau digwyddiadau diogelwch cleifion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a'r Uned Gyflawni fel yr oedd ar y pryd.

Amlygodd yr adolygiad y canfyddiadau canlynol:

- Bu cynnydd mewn digwyddiadau rhwng 2021 a 2022.
- Roedd 77% yn ddynion, roedd 73% o gleifion yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl, ac roedd gan 64% 'statws anffurfiol'.
- Roedd asesiad risg wedi'i gwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd hwn bob amser yn cael ei ddiweddarau.
- Roedd y rhan fwyaf yn cael eu hystyried yn risg isel ac roedd dros eu hanner yn destun 'arsylwi cyffredinol'.
- Roedd rhai wardiau wedi newid eu proffil derbyniadau yn ystod y pandemig at ddibenion rheoli heintiau; lle roedd wardiau wedi newid swyddogaeth, roedd rhai staff yn llai cyfarwydd â phroffil y cleifion.
- Nid oedd yr holl staff ar ddyletswydd yn gyfarwydd ag amgylcheddau'r wardiau na'r gweithdrefnau pan fydd digwyddiadau, e.e. staff dros dro, staff banc neu staff asiantaeth.
- Roedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn y wardiau mewn manau anghysbell fel ystafelloedd gwely.

Yr argymhellion o'r adroddiad oedd:

- Gwaith pellach i'w wneud gan Lywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG i gryfhau'r prosesau ar gyfer asesu risg hunanladdiad i sicrhau bod y rhain yn gydweithredol, yn gyson, yn amserol, ac yn cael eu diweddarau ar bob pwynt derbyn, rhyddhau, neu drosglwyddo gofal.
- Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod sail resymegol glir wedi'i chofnodi pan wneir penderfyniad i godi neu leihau lefelau arsylwi. Rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn seiliedig ar adolygiad o'r asesiad risg.
- Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod asesiadau risg amgylcheddol yn cael eu cynnal pan fo swyddogaeth y ward yn newid.
- Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant a phrofiad priodol i reoli proffil y cleifion. Pan ddefnyddir staff dros dro, rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag amgylchedd y wardiau, y risgiau i gleifion, a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiadau.

Cyflwynwyd argymhellion yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch mewn Iechyd Meddwl (NCISH) yn yr uwchgynhadledd hefyd, sef:

- Cael gwared ar bwyntiau clymu mewn manau isel.
- Sicrhau bod absenoldeb cyn rhyddhau a chynllunio rhyddhau yn mynd i'r afael â'r amgylchiadau andwyol y gallai'r claf fod yn dychwelyd iddynt.
- Gwella profiad cleifion mewnol a gwella'r berthynas therapiwtig i leihau risg.

Trafodwyd rheoli risgiau clymu, a chadarnhaodd pob bwrdd iechyd y canlynol:

- Cynhelir archwiliad clymu yn flynyddol.
- Strwythur mewnol a fforwm i ddarparu trosolwg.
- Rhaglen waith i gefnogi rheolaeth gwrthglymu (mae rhai meysydd yn adrodd bod gwella'r berthynas gyda'r adran ystadau wedi gwneud gwahaniaeth).
- Polisi lleol ar waith – mae 'Egwyddorion a Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Rheoli Clymu' yn barod i'w gweithredu.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ymwneud â staffio:

- Nid yw deddfwriaeth staffio diogel yn berthnasol i iechyd meddwl, er bod llawer o fyrddau iechyd yn nodi eu bod yn dilyn yr egwyddorion.
- Mae byrddau iechyd yn adrodd am nifer uchel o swyddi gwag gyda cleifion mewnol, sy'n arwain at ddibyniaeth ar staff banc ac asiantaeth.
- Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth seicoleg mewn gwasanaethau cleifion mewnol.
- Ystyriaeth i rolau staffio amgen o fewn wardiau cleifion mewnol – e.e. mae ffocws ar weithwyr cymheiriaid, seicoleg benodedig i gleifion mewnol, prentisiaid Band 4 a gweithwyr pontio.

Trafodaeth grŵp

Lleisiwyd y pwyntiau canlynol gan fynychwyr:

- Mae pryderon ynghylch trosiant cyflym staff a dibyniaeth ar feddygon locwm, sy'n gadael unedau cleifion mewnol mewn sefyllfaoedd ansefydlog ar adegau.
- Mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng gwneud wardiau'n ddiogel, rheoli risg ynddynt, a'u gwneud yn therapiwtig.
- Nid oes unrhyw broses weithredol i'w dilyn os na ellir cysylltu â chlaf yn ystod dilyniant ar ôl rhyddhau ac mae angen deall y protocolau yn well.
- Lansiad y Rhaglen Cadw Staff Genedlaethol.

Themâu diogelwch sy'n dod i'r amlwg

Cyflwynodd Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Diogelwch Gweithrediaeth y GIG sleidiau i'r grŵp yn amlgu themâu diogelwch sy'n dod i'r amlwg:

- Mae'r adroddiad Mamau a Babanod: Lleihau Risg trwy Archwiliadau ac Ymchwiliadau Cyfrinachol (MBRRACE) yn pwysleisio bod hunanladdiad bellach yn cael ei gydnabod fel prif achos marwolaeth i famau rhwng chwe wythnos a deuddeg mis yn dilyn beichiogrwydd.
- Ffurfiwyd Grŵp Cydlyn Cenedlaethol GIG Cymru ar gyfer diogelwch rhywiol ym mis Gorffennaf 2023 gan Weithrediaeth GIG Cymru. Canfyddiad mwyaf amlwg yr adolygiad o ddigwyddiadau diogelwch rhywiol oedd y gyfradd hynod anghymesurol y digwyddodd y digwyddiadau hyn mewn lleoliadau gofal iechyd meddwl, gyda bron i hanner y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn digwydd yno.
- Mae 53% o arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi nodi problemau meddyginiaeth, a rhannwyd rhai o'r canfyddiadau cyffredin gyda'r grŵp.

Disgwyliadau Gweinidogion

Cydnabu'r Dirprwy Weinidog y pwysau yn y system, sy'n parhau i dyfu, a diolchodd i'r mynychwyr am y gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Atgoffodd y grŵp fod gennym ddyletswydd i wella ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwn yn barhaol ac, o ystyried y graddau uchel o niwed y mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn agored iddynt, mae hyn yn bwysicach fyth mewn lleoliadau iechyd meddwl aciwt.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn awyddus i glywed gan gydweithwyr yn y byrddau iechyd am yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddarparu gofal diogel. Dywedodd wrth y grŵp ei bod am i nifer o ganlyniadau a champau gweithredu gael eu

cytuno yn dilyn yr uwchgynhadledd ac i bob bwrdd iechyd ymrwymo i weithio gyda Gweithrediaeth y GIG ar gynlluniau cadarn ar gyfer gwelliannau diogelwch a thrawsnewid gofal iechyd meddwl aciwt yn yr hirdymor.

Symud Ymlaen: Rhaglen Diogelwch Cleifion Iechyd Meddwl Cymru

Cyflwynodd Arweinydd Datblygu Iechyd Meddwl Cymru Gwelliant Cymru sleidiau ar Raglen Diogelwch Cleifion Iechyd Meddwl Cymru. Mae ffocws cychwynol ar leoliadau cleifion mewnol a bydd yn cynnwys trefniadau rhyddhau a gweithredu'r safonau gwrthglymu. Rhannwyd sut y cyflawnir hyn, a'r dystiolaeth sy'n seiliedig ar newid, gyda'r rhai a oedd yn bresennol. Rhoddwyd cyfle i fynychwyr yr uwchgynhadledd nodi pa feysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt a gofynnwyd iddynt gymryd rhan yn y cynllun a'r dull gweithredu, a gwneir hyn drwy weithdai ar 1 Chwefror 2024 a 5 Mawrth 2024 gydag enwebeion o bob bwrdd iechyd.

Trafodaeth a'r ffordd ymlaen

Cafwyd trafodaeth grŵp a hwyluswyd gan Weithrediaeth y GIG am yr heriau mwyaf sy'n wynebu gwasanaethau a pha wahaniaethau y gellid eu gwneud yn dilyn y cyflwyniadau yn yr uwchgynhadledd. Rhannodd y grŵp y canlynol:

- Y gweithlu:
 - Mae'n bwysig gwneud i staff o fewn gwasanaethau deimlo'n fwy gwerthfawr.
 - Pwysigrwydd cefnogi staff, gan gynnwys wrth fynd trwy gwest a phrosesau crwner.
 - Staff i ddilyn yr hyfforddiant cywir.
 - Rhaid i'r gweithlu fod yn rhan o drafodaethau gan mai nhw yw'r arbenigwyr yn y maes hwn.
 - Mae angen inni ystyried y model gweithlu rhyngddisgyblaethol cyfan mewn wardiau cleifion mewnol.
 - Mae cyfleoedd i ystyried sut y gall rolau mwy newydd gefnogi staff wardiau ochr yn ochr ag ymdrechion i gynyddu nyrsys iechyd meddwl a rolau eraill sy'n dal â llawer o swyddi gwag ar hyn o bryd, megis rolau cymheiriaid. Dywedodd Gweithrediaeth y GIG fod modelau da yn dod i'r amlwg y gellir eu rhannu yn y dyfodol.
 - Mae gwella ansawdd a diogelwch cleifion mewn lleoliadau cleifion mewnol o fewn yr heriau ariannol a gweithlu presennol yn anodd, a byddai'n ddefnyddiol dod â'r profiad bywyd a'r tîm amlddisgyblaethol o fewn i arweinyddiaeth drosfwaol y gwaith.
 - Sicrhau bod y gweithlu'n gweld gofal cleifion mewnol fel dewis gyrfa, nid carreg gamu i wasanaethau eraill.
 - Mae sicrhau bod gennym arweinwyr sy'n meithrin diwylliannau tosturiol sy'n galluogi pobl i ffynnu yn hanfodol i wasanaethau.
- Rhaid cadw cleifion yn ddiogel.
- Mynegwyd y pwysau ar welyau fel pryder.
- Y pwysigrwydd bod yr amgylcheddau yn therapiwtig yn ogystal â bod yn ddiogel.
- Mae heriau diogelwch mawr mewn lleoliadau cleifion mewnol ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn (OPMH) o ran darparu gofal iechyd corfforol diogel.
- Mae wardiau iechyd meddwl pobl hŷn yn cael trafferth cydbwysu lleihau risgiau clymu a darparu gofal diogel i gleifion bregus.

- Codwyd pryderon ynghylch risgiau clymu, a rhai o'r ystadegau a rannwyd yn yr uwchgynhadledd.
- Ar draws rhai safleoedd iechyd meddwl yn Lloegr, maent wedi cyflwyno systemau arsylwi digidol.
- Y defnydd o wahanol fathau o therapi sydd wedi bod yn llwyddiannus, megis therapi cerdd a seicotherapi celf.
- Ceir amrywiaeth ond rhai arferion a syniadau da iawn ar lefel leol. Sut y gellir dod â hynny ynghyd i greu amgylchedd dysgu, cynllunio a gwella o ansawdd cenedlaethol i gefnogi ac ychwanegu gwerth at wasanaethau ac i gleifion.
- O ran y berthynas â'r heddlu, dywedodd rhai byrddau iechyd fod hwn yn faes y gellid ei wella.

Sylwadau eraill a godwyd yn yr uwchgynhadledd:

- Byddai'n ddefnyddiol creu bwrdd rhaglen.
- Mae'r strategaeth iechyd meddwl ddrafft yn cynnwys sôn am ddatganiadau ansawdd ar gyfer iechyd meddwl.
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai mynychwyr yr uwchgynhadledd yn y dyfodol drafod materion mewn grwpiau llai ac adrodd yn ôl.

Daeth y Dirprwy Weinidog â'r uwchgynhadledd i ben a diolchodd i bawb a oedd yn bresennol am eu myfyrdodau gonest ar yr heriau y mae gwasanaethau yn eu hwynebu. Cydnabu fod byrddau iechyd yn gweithio gyda heriau ariannol anodd a galw mawr ar y gwasanaethau ond roedd yn glir bod yn rhaid bwrw ymlaen â'r ymrwymadau a wnaed yn yr uwchgynhadledd.

Ymrwymadau

Gosodwyd y disgwyliadau a chatau gweithredu canlynol:

- Byrddau iechyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am leoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl yng nghyfarfodydd Cyd-Dîm Gweithredol Llywodraeth Cymru yn 2024.
- Cynnydd i'w wneud gyda datganiad ansawdd iechyd meddwl a rhaglen diogelwch cleifion mewnol erbyn Ebrill 2024, gan gynnwys canolbwyntio ar gynllunio diogelwch sy'n canolbwyntio ar y gweithlu a'r unigolyn.
- Uwchgynhadledd arall i'w threfnu ar gyfer canol 2024 i wneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu a chynnydd yr uwchgynhadledd hon.
- Byrddau iechyd i enwebu un arweinydd lefel weithredol a dau arweinydd gweithredol i fynychu gweithdai ar 1 Chwefror 2024 a 5 Mawrth 2024, a chymorth i gyd-lunio'r rhaglen newydd ac i lansio'r safonau gwrthglymu newydd yn lleol.

Atodiad 1

Yn bresennol

Gweinidogol	
Lynne Neagle AS	Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Llywodraeth Cymru	
Jeremy Griffith	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Olivia Shorrocks	Pennaeth Cyflyrau Difrifol
Matt Downton	Pennaeth Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Steve Clarke	Swyddog Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
Caroline Lewis	Pennaeth Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth
Luke Solomon	Uwch-reolwr Perfformiad ac Uwchgyfeirio
Kate O'Neill	Swyddog Perfformiad

Gweithrediaeth y GIG	
Ciara Rogers (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd Meddwl
Dave Semmens	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl
Cathy Dowling	Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Diogelwch
Gareth Lee	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Perfformiad a Sicrwydd
Sharon Cooke	Rheolwr Gwella Ansawdd a Pherfformiad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	
Leanne Watkins	Prif Swyddog Gweithredu
Chris O'Connor	Cyfarwyddwr Rhanbarthol Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Richard Morgan-Evans	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau
Michelle Forkings	Nyrs Ranbarthol Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu / Cyfarwyddwr Nyrsio Cyswllt Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Kolade Gamel	Rheolwr Grŵp Gwasanaeth, Teulu a Therapiau

Patrick Chance	Meddyg Ymgynghorol mewn Seiciatreg Cyswllt Henaint a Chyfarwyddwr Clinigol, Seiciatreg Henaint
Amy Mitchell	Pennaeth Rhanbarthol Therapi Galwedigaethol, Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Helen Dodoo	Rheolwr Cyffredinol, Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Rebecca Goode	Pennaeth Trawsnewid Gweithredol
Jo Green	Uwch-reolwr Cynllunio a Datblygu Gwasanaethau
Nadine Gould	Nyrs Ranbarthol Gwelliant, Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Jennifer Winslade	Cyfarwyddwr Nyrsio
Tracey Partridge-Wilson	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio
Linda Alexander	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio
Hannah Evans	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau
Hayder Al-Hassani	Meddyg Seiciatreg Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Oedolion
Nicola Lewis	Cyfarwyddwr Clinigol a Chyd-bennaeth Gwasanaethau Seicolegol
Gemma O'Brien	Cyd-gyfarwyddwr Clinigol Iechyd Meddwl Oedolion a Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol
Kathryn Walters	Cyd-bennaeth Seicoleg, Cwnsela, a Therapiau Celf

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Iain Wilkie	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl a Datblygu
Alberto Salmoiraghi	Cyfarwyddwr Meddygol Iechyd Meddwl / Anawsterau Dysgu
Carole Evanson	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl / Anawsterau Dysgu
Adrian Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Neil Jones	Cyfarwyddwr Bwrdd Clinigol, Iechyd Meddwl
Daniel Crossland	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Iechyd Meddwl
Mark Doherty	Pennaeth Nyrsio, Iechyd Meddwl

Tara Robinson	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Meddwl
Adam Wright	Cyfarwyddwr Cynllunio Gweithredol a Pherfformiad
Rebecca Aylward	Dirprwy Gyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Julie Denley	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu – Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl
Elaine Lorton	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd Meddwl
Ana Llewellyn	Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl
Andrea Davies	Pennaeth Seicoleg
Lisa Davies	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Mary Self	Cyfarwyddwr Clinigol
Natalie Bell	Dirprwy Bennaeth Therapi
Elizabeth Beadle	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid
Ana Riley	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid
Sara E. Mason	Pennaeth Pobl

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Liz Carroll	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Rebecca Temple-Purcell	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Kay Isaacs	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Angela Lodwick	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Warren Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
Nicky Thomas	Arweinydd Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Iechyd Meddwl

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ben Shooter	Seiciatrydd Ymgynghorol, Cyfarwyddwr Clinigol Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Louisa Kerr	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Deb Lewis	Prif Swyddog Gweithredu
Ebony Smith	Rheolwr Cymorth Gweithredol
Janet Williams	Cyfarwyddwr Gwasanaeth
Dermot Nolan	Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth Cyswllt ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu
Richard Maggs	Seiciatrydd Ymgynghorol
Stephen Jones	Cyfarwyddwr Nyrsio

Gwelliant Cymru

Andrea Gray	Arweinydd Datblygu Iechyd Meddwl Gwelliant Cymru
Dominique Bird	Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Gwella Ansawdd

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)

Emma King	Uwch-reolwr Cynllunio Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
-----------	--

Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Sam Hall	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl
Heidi Morris	Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth Gymunedol ac Iechyd Meddwl

Yr Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (NCCU)

Shane Mills	Cyfarwyddwr Clinigol
Colette Rees	Pennaeth Cynllunio a Dylunio a Chyflawni Rhaglenni
Kate Burton	Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Chomisiynu

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Ainsley Bladon	Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol – Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol
Angie Oliver	Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Atodiad 2

Cyflwyniadau sleidiau – bydd y rhain yn cael eu hanfon ar wahân.